

Adolygiad o'r drefn amlygrwydd

Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG
llinol a dyfodol y drefn

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Gorffennaf 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 5 Hydref 2018

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol

1

1. Crynodeb Gweithredol

Amlygrwydd a chyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) mewn marchnad sy'n newid yn gyflym

- 1.1 Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) -sy'n cynnwys y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 ymhlith eraill-yn werthfawr iawn i gynulleidfaedd y DU.¹ Mae'n darparu amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus yn cynnwys teledu o safon uchel sy'n adlewyrchu'r DU i'r bobl. Mae darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cyrraedd cynulleidfaedd mawr, dod â'r cenhedloedd at ei gilydd ar adegau pwysig ac yn dysgu, yn diddanu ac yn rhoi gwybodaeth i gymdeithas.
- 1.2 I gydnabod y manteision hyn mae'r Senedd Brydeinig yn ei gwneud yn ofynnol bod sianeli llinol sy'n darparu rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus (y sianeli dynoedig) yn cael lle amlwg mewn cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs). Mae hyn yn sicrhau bod cynnwys o'r fath ar gael yn hawdd ac yn hawdd dod o hyd iddo, a ddylai annog rhagor o ddefnydd ohono ac esgor ar ragor o fanteision cyhoeddus.
- 1.3 Am nawr, mae teledu llinol yn parhau i fod yn rhan bwysig o arferion gwyllo pobl, gyda theledu byw yn cyfrannu at 58% o'r holl gynnwys teledu a chlywedol-gweledol sy'n cael ei wyllo. Felly mae hyn yn golygu bod y drefn amlygrwydd bresennol yn parhau'n berthnasol. O ganlyniad, rydym yn ymgynghori am newidiadau arfaethedig i'r Cod ar ddarpariaeth cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) (sef "Y Cod") i sicrhau amlygrwydd addas ar gyfer sianeli dynoedig presennol.
- 1.4 Mae'r tirlun y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddo yn newid yn gyflym. Yn y farchnad heddiw, nid yw gwylwyr wedi'u clymu i amserlen deledu neu ddim ond yn gallu gwyllo cynnwys ar set deledu. Mae ganddynt fynediad at ystod lawer ehangach o gynnwys, gan ddetholiad mwy helaeth o ddarparwyr o Netflix a Facebook i YouTube a Sky Go. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad mewn gwyllo teledu byw. Fel ag adroddwyd yn ein hadroddiad Cenhedloedd y Cyfryngau'r DU, mae gwyllo teledu wedi ei ddarlledu ar y set deledu wedi gostwng am y chweched flwyddyn yn olynol. Rhwng 2016 a 2017 fe wnaeth gwyllo fesul person ostwng o 4.2% i 3 awr 22 munud, sef 9 munud yn llai.
- 1.5 Mae gwylwyr iau yn arbennig yn gwyllo llai o deledu. Roedd agos i hanner (47.5%) o'r gostyngiad mewn lefelau gwyllo teledu oherwydd y garfan o dan 25 oed. Mae oedolion ifanc (16-34 oed), yn gwyllo mwy o ffynonellau nad ydynt yn cael eu darlledu (ar draws holl ddyfeisiau), na'r rhaglenni sydd yn cael eu darlledu'n draddodiadol. Mae nhw'n gwyllo gwasanaethau fideo ar alwad drwy ddefnyddio tanysgrifiad (SvoD) am hanner awr y dydd ar gyfartaledd. Ond mae'r rhan fwyaf o'u hamser yn cael ei wario ar YouTube, ac maent yn gwyllo hwnnw am awr y dydd ar gyfartaledd.

¹ Ffynhonnell: Traciwr PSB Ofcom 2017

- 1.6 Mae cynulleidfaoedd yn gwyllo cynnwys ar amrywiaeth mwy eang o ddyfeisiau. Mae'r rhain yn cynnwys dyfeisiau tabled, ffonau clyfar, teledu clyfar, bocisau 'set-top' a dyfeisiau fel 'Amazon Fire'. Gallant gynnwys dulliau chwilio dwys ac argymhellion sydd hefyd yn gallu effeithio ar ba mor hawdd y gellid dod o hyd i gynnwys darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- 1.7 Pan wnaeth y Llywodraeth Brydeinig greu deddfwriaeth i ystyried amlygrwydd cynnwys gwasanaethau cyhoeddus, roedd teledu'r rhyngwlad a fideo ar-alw yn newydd iawn. O ganlyniad, mae'r Cod a'i anghenion amlygrwydd yn berthnasol i ddarparwyr EPG a'r sianeli teledu dynodedig llinol yn unig ac nid i gynnwys a ddarparwyd ar-alw (er enghraifft drwy'r BBC iPlayer neu'r ITV Hub).
- 1.8 Os mae'r Senedd Brydeinig yn dymuno i wasanaethau cyhoeddus fod yn hawdd i'w darganfod, yna mae angen deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r twf mewn gwyllo teledu trwy'r rhyngwlad. Fel wnaethon ni nodi yn ein cyhoeddiad ym Mawrth 2018 ² oedd yn ystyried PSB yn yr oes ddigidol, a byddwn yn cefnogi'r fath hyn o ddeddfwriaeth o ystyried ein dyletswyddau i sicrhau iechyd y system PSB yn y DU.
- 1.9 Mae dylunio trefn amlygrwydd sy'n addas ar gyfer yr oes ddigidol yn codi nifer o gwestiynau cymhleth. Rydym wedi nodi rhai o'r prif faterion, ynghyd ag opsiynau posibl y gallai'r Senedd Brydeinig eu hystyried. Rydym yn croesawu safbwyntiau'r darlledwyr a rhanddeiliaid eraill am y materion rydym wedi'u nodi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, i gyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus.

Diogelu amlygrwydd mewn byd llinol

- 1.10 Mae'r sianeli llinol sydd i gael amlygrwydd (y sianeli dynodedig) wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Sef holl sianeli'r BBC, gwasanaethau Channel 3, Channel 4, Channel 5, S4C a sianeli teledu lleol.
- 1.11 Ni ellir rhoi'r un lefel o amlygrwydd i'r holl sianeli dynodedig ac ni ddylid gwneud hynny. Cyhoeddwyd Cod cyntaf Ofcom yn 2004 ac fe oedd yn defnyddio dull seiliedig ar egwyddorion, gan ddatgan bod 'amlygrwydd priodol' yn caniatáu mesur gwahaniaethu o blaid y sianeli dynodedig ond nid oeddem yn bwriadu bod yn rhagnodol o ran beth roedd hynny'n ei olygu. Fe wnaethom bennu tair egwyddor eang:
- Dylai darparwyr EPG sicrhau bod eu dull mewn perthynas ag amlygrwydd darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi'i nodi mewn datganiad a bod modd ei gyfiawnhau'n wrthrychol;
 - Byddai Ofcom yn rhoi sylw i fuddiannau dinasyddion a disgwyliadau defnyddwyr wrth ystyried a yw dull penodol o restru sianeli dynodedig yn rhoi amlygrwydd priodol iddynt;
 - Dylai EPGs alluogi gwylwyr sianeli gwasanaeth cyhoeddus mewn ardal i ddewis y fersiynau rhanbarthol mwyaf priodol o'r sianeli hynny drwy'r prif restrau ar gyfer y

² https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/111896/Public-service-broadcasting-in-the-digital-age.pdf

sianeli hynny, ar yr amod bod y darlledwr perthnasol wedi sicrhau gwasanaethau sy'n galluogi hyn.

- 1.12 Felly, mae'r Cod presennol yn cynnwys lefel eang o hyblygrwydd i ddarparwyr EPG o ran ble y dylid lleoli'r sianeli dynodedig ar eu EPGs eu hunain.
- 1.13 Mae'r hyblygrwydd hwn, dros amser, wedi arwain at amrywiadau sylweddol ledled darparwyr EPG ac at ei gwneud yn llai hawdd dod o hyd i rai sianeli dynodedig, yn ddibynnol ar y llwyfan a'r ddyfais teledu a ddefnyddir. Mae lleoliadau presennol yr holl sianeli dynodedig ar draws y gwahanol blatfformau yn rhan o'n adroddiad ar amlygrwydd PSB llinol.³ Rydym hefyd yn nodi bod dulliau rhai darparwyr EPG o ddyrannu'r slotiau yn newid.⁴
- 1.14 Yn sgil y datblygiadau hyn, rydym o'r farn ei bod yn amser diwygio'r Cod er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r bwriad polisi a bennir gan y Senedd Brydeinig mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd rheoleiddiol ar gyfer sianeli dynodedig a darparwyr EPG o ran disgwyliadau mewn perthynas ag "amlygrwydd priodol".
- 1.15 Rydym wedi adolygu'r Cod gyda'r bwriad o sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r holl sianeli dynodedig ar bob EPG a'u bod mewn safleoedd lle maent yn cael amlygrwydd priodol yn ein barn ni ledled pob llwyfan, gan gydnabod manylion penodol gwahanol fathau o EPGs (yn bennaf p'un ai a ydynt yn cael eu darparu ledled y DU neu'n rhanbarthol).
- 1.16 Mae ein cynigion yn adlewyrchu'r ffaith fod amlygrwydd priodol yn amrywio yn ôl sianel, o ganlyniad i'w cymeriad, eu cynnwys a'u cynulleidfaoedd targed amrywiol. Dylai'r Cod diwygiedig sicrhau bod y lefelau gwyllo, a'r manteision i'r cyhoedd yn sgil hynny, mor uchel ag y gallant fod. Drwy ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried yr ystod o effeithiau posibl ar ddarlledwyr eraill a darparwyr EPG er mwyn sicrhau bod ein dull yn gymesur.

Newidiadau arfaethedig i'r Cod

- 1.17 I grynhoi, rydym yn cynnig:
- Y dylid sicrhau safleoedd presennol y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, y gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5) yn y pum slot uchaf ar EPGs sy'n gweithredu ledled y DU neu'r tu allan i Gymru;
 - Ar EPGs a ddarperir ar gyfer gwylwyr yng Nghymru, dylai'r tri phrif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus (BBC1, BBC2, ITV) gael y tri slot cyntaf, gydag S4C yn y pedwerydd slot, sianel 5 yn y pumed slot ac fe ddylid sicrhau lle i Channel 4 ar y dudalen gyntaf;
 - Dylai BBC Four gael slot sicr ar dair tudalen gyntaf unrhyw EPG;

³ Gweler Adran 4 o'n hadroddiad EPG: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/116288/report-psb-local-tv-discoverability.pdf

⁴ Ceir gwybodaeth am y newidiadau hyn yn Atodiad 8: (https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/116286/annex-8-technical-annex.pdf ac Atodiad 10 yr adroddiad EMP (https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/116287/expert-media-partners.pdf

- Dylai'r sianeli â genre penodol (BBC News, BBC Parliament, CBBC a CBeebies) gael slot sicr ar dudalen gyntaf y genre neu'r adran berthnasol ar EPGs, lle y bo hynny'n berthnasol;
- Dylai BBC Alba a BBC Scotland (fydd yn lansio yn 2019) gael slot sicr ar dair tudalen gyntaf EPGs a ddarperir i wylwyr yn yr Alban;
- Dylai S4C, BBC Alba a BBC Scotland gael slot sicr ar dair tudalen gyntaf EPGs ledled y DU;
- Fe ddylai gwasanaethau teledu lleol gael eu lleoli ar dair tudalen gyntaf unrhyw EPG. Ddim ond y gwasanaeth(au) lleol sy'n cael eu darlledu yn yr ardal darpariaeth berthnasol ddylai gael amlygrwydd yn y cyd-destun hwnnw.

1.18 Bydd effaith ein cynigion yn amrywio fesul darparwr, yn dibynnu ar eu hymarferion presennol. Rydym wedi ystyried yr effeithiau hyn ochr yn ochr ag opsiynau eraill, lle'n berthnasol, i sichrau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol o ran amlygrwydd PSB ac EPG mewn ffordd effeithol a chymesur.

1.19 Byddwn yn gofyn nawr am safbwyntiau rhanddeiliaid am ein cynigion.

Diogelu amlygrwydd mewn byd digidol

1.20 Fel ag amlinellwyd uchod, o ystyried y newidiadau sylweddol yn y farchnad ddarlledu, yn arbennig y cynnydd mewn cynnwys sy'n cael ei wyllo ar-alw, rydym yn gofyn am safbwyntiau am sut gellid diogelu amlygrwydd cynnwys PSB mewn byd digidol.

1.21 Rydym wedi amlinellu'r materion a'r heriau wrth ystyried amlygrwydd mewn amgylchedd ar-lein mewn pum maes allweddol:

- a) sicrhau bod yr EPG llinol ei hun yn amlwg;
- b) amlygrwydd chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus PSB e.e. BBC iPlayer;
- c) amlygrwydd cynnwys ar-alw PSB drwy ffyrdd eraill yn hytrach na'r EPG a chwaraewyr PSB;
- ch) ymestyn y drefn amlygrwydd presennol y tu hwnt i gyfeiryddion EPG trwyddedig i blatfformau a dyfeisiau teledu eraill; a
- d) amlygrwydd mewn byd lle mae teledu yn llai canolog, lle mae gwylwyr yn dod o hyd i gynnwys drwy ffynonellau fel y cyfryngau cymdeithasol ar amrywiaeth o ddyfeisiau.

1.22 Er yr heriau yn y meysydd hyn, rydym yn nodi ei bod hi'n bosibl i gael amlygrwydd yn y byd ar-lein, er enghraifft ar Facebook, ar chwiliwr Google ac ar blatfformau a gwasanaethau fel Amazon Prime, Netflix, NOW TBV ac YouTube.

1.23 Rydym wedi nodi'r ystyriaethau allweddol y dylai unrhyw drefn yn y dyfodol eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys pa lefel o amlygrwydd fyddai'n addas i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus a'u rhaglenni, sut y mesurwyd amlygrwydd (e.e. y nifer o glaciau neu benderfyniadau i gyrraedd cynnwys PSB), a ddylai gwasanaethau fod yn amlwg ar bob dyfais a'r graddfeydd y dylai platfformau neu ryngwynebau eu cyrraedd i fod yn rhan o unrhyw reoleiddio newydd.

- 1.24 Rydym hefyd o'r farn y dylai rhai egwyddorion allweddol gael eu cynnal o dan unrhyw drefn newydd. Mae hyn yn cynnwys gwarchod gallu'r gwylwr i bersonoleiddio yr hyn mae'n ei weld (er enghraifft, trefnu apiau chwaraewyr teledu fel y mynnant), peidio rhwystro dewis defnyddwyr (er enghraifft, hyrwyddo rhaglenni ar sail ffafriaeth personol) a sicrhau tryloywder y teclyn chwilio.